

Astudiaeth Achos: Plastrwr - Brendan

Beth ydych chi'n ei wneud?

Rwy'n berchen ar fusnes plastro a fi sy'n rhedeg y busnes. Rwyf wedi bod yn gwneud y gwaith ers dros 20 mlynedd, ond nid yw hynny'n golygu fy mod i'n eistedd mewn swyddfa drwy'r dydd. Rwy'n dal i daenu plastr â llaw, gan weithio dan do ac yn yr awyr agored.



Beth yw'ch cefndir?

Astudiais gyfrifyddu yn y coleg, ond rwyf wedi bod yn plastro ers pan oeddwn yn ddeg oed. Roedd fy nhad yn blastrwr, ac roeddwn i'n arfer ei helpu'n rhan amser yn ystod y gwyliau. Mae rhywbeth a ddechreuodd fel ychydig o hwyl dros y gwyliau wedi datblygu'n fusnes.

Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae'n rhaid i chi fwynhau gweithio. Mae'n waith anodd a brwnt sy'n gofyn am lawer o ymdrech corfforol.

Mae'n rhaid i chi rhoi llawer o sylw i fanylion hefyd. Rydych yn treulio llawer o amser yn adnewyddu'r plastr mewn hen dai; mae'n rhaid i chi wneud yn siwr eich bod yn gosod y plastr newydd yn iawn heb amharu ar gymeriad yr adeilad.

Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Gallech chi symud ymlaen i ymwneud ag unrhyw grefft bron iawn, er enghraifft teilsio. Wrth gwrs, bydd angen i chi gael rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol i wneud swyddi eraill. Dim ond y wybodaeth sylfaenol fydd gennych.

Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Mae'r deunyddiau rydym yn eu defnyddio heddiw eisoes yn llawer gwell na'r hen ddeunyddiau.

Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Gwaith adnewyddu yw'r gwaith anoddaf, heb os. Rydych yn ceisio efelychu'r ffordd y cafodd adeiladau eu dylunio a'u hadeiladu tua chanrif yn ôl, ac nid yw hynny bob amser yn hawdd.

Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae'n rhaid cael hyfforddiant da er mwyn llwyddo. Felly, cysylltwch â'ch coleg lleol i gael gwybod am gyfleoedd hyfforddi yn eich ardal leol.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Rwy'n hoffi'r cyfle i wneud gwaith corfforol. Rydych yn gwneud ymarfer corff drwy'r dydd: yn gweithio eich coesau, eich breichiau a'ch cefn.

Rwy'n hoffi cwrdd â llawer o bobl hefyd. Rydych yn gweithio ochr yn ochr â thrydanwyr, peintwyr ac ati, a phan fyddwch yn mynd i safle adeiladu newydd, yn aml byddwch yn cwrdd â grwp hollol newydd o bobl.

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Rwy'n rhedeg fy musnes fy hun, felly fy nghas bethau yw'r holl waith papur a'r holl bethau sydd i'w gwneud y tu allan i oriau gwaith arferol.

Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Fy mhrif gyngor i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwaith plastro fyddai dechrau arni drwy gael swydd yn ystod yr haf - yn helpu plastrwr neu'n gweithio i blastrwr - a dechrau cael profiad fel hynny. Yna, byddwch fwy neu lai yn gwybod beth sydd o'ch blaen ar hyd yr yrfa hon.

Diwrnod ym mywyd

6:30 yb - 7:00 yb

Llwytho'r fan yn barod ar gyfer gwaith y dydd.

7:00 yb - 8:00 yb

Gyrru i'r safle gwaith.

8:00 yb - 8:30 yb

Cyrraedd y safle gwaith; gorchuddio'r ardal waith â llieiniau; mynd i ôl pethau o'r fan; paratoi'r ardal waith.

8:30 yb - 12:00 yb

Plastro'r waliau ar dy sy'n cael ei adnewyddu; defnyddio trywel a thaenwr i wasgaru'r plastr yn llyfn ar y waliau a'r nenfwd; dringo ysgol er mwyn taenu'r tair haen o blastr.

12:00 yb - 1:00 yb

Cinio.

1:00 yb - 2:00 yb

Gorffen gwneud gwaith plastro dan do; sefyll ar ysgol a thaenu haenau o blastr ar y waliau a'r nenfwd gan ddefyddio symudiadau mawr llyfn.

2:00 yb - 4:00 yb

Mynd allan i'r awyr agored i wneud ychydig o waith sment ar du allan y ty; sefyll ar ysgol; taenu'r sment; creu gorffeniad llyfn ar ochr allanol y ty.

4:00 yb - 4:30 yb

Glanhau'r ardaloedd gwaith dan do ac yn yr awyr agored.